

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Croesfan Reilffordd Cilyrychen,
Llandybie, Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2021

The A483 Trunk Road (Cilyrychen
Level Crossing, Llandybie,
Carmarthenshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2021

Gwnaed 11 Mai 2021

Made 11 May 2021

Yn dod i rym 16 Mai 2021

Coming into force 16 May 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Llandybie, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2021.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Cilyrychen Level Crossing, Llandybie, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 16 May 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 16 Mai 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd yn Heol Llandeilo, Llandybie, Sir Gaerfyrddin sy’n ymestyn o bwynt 20 metr i’r gogledd-ddwyrain o groesfan reilffordd Cilyrychen hyd at bwynt 20 metr i’r de-orllewin o’r groesfan reilffordd honno.

Cymhwys

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Mai 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 22:00 hours on 16 May 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road at Llandeilo Road, Llandybie, Carmarthenshire that extends from a point 20 metres north-east of Cilyrychen level crossing to a point 20 metres south-west of the level crossing.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

11 May 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(CROESFAN REILFFORDD CILYRYCHEN,
LLANDYBIE, SIR GAERFYRDDIN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, wrth groesfan reilffordd Cilyrychen, Llandybie, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn am 20 metr i'r naill ochr a'r llall i groesfan reilffordd Cilyrychen ar Heol Llandeilo, Llandybie.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A476 tua'r de-orllewin o Gylchfan Ffair-fach drwy Garmel a'r Gors-las i Gylchfan Cross Hands, yr A48 tua'r de i Gylchfan Pont Abraham, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Rydaman a'r A483 tua'r gogledd i Landybie: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Mai 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn gweithredu o 22:00 o'r gloch ar 16 Mai hyd 06:00 o'r gloch ar 17 Mai 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (CILYRYCHEN
LEVEL CROSSING, LLANDYBIE,
CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Cilyrychen level crossing, Llandybie, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends for 20 metres either side of Cilyrychen level crossing at Llandeilo Road, Llandybie.

The alternative route for southbound vehicles is via the south-westbound A476 from Ffairfach Roundabout through Carmel and Gorslas to Cross Hands Roundabout, southbound A48 to Pont Abraham Roundabout, north-eastbound A483 to Ammanford and northbound A483 to Llandybie: vice versa for northbound vehicles.

The Order comes into force on 16 May 2021. The temporary prohibition is expected to operate from 22:00 hours on 16 May until 06:00 hours on 17 May 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government